





# Dyffryn Swistir Swiss Valley

### 1) LLWYBR ILLTUD SANT
Mae Llwybr Sant Illtyd yn llwybr hirfaith 64 milltir hyd, sydd yn ymestyn o Barc Gwledig Pen-bre yn y gorllewin i Barc Margam, Port Talbot, yn y dwyrain.

### 2) Y GUDDFAN GWYLIO ADAR
O'r guddfan mae golygfeydd gwych i'w cael o'r rhannau tawelaf o'r gronfa. Mae'n bosibl y gwelwch chi adar megis Gwyachod Mawr Copog, Gwyachod Bach, Cwtieir, Ieir Dŵr a Chrychyddion ar unrhyw adeg o'r flwyddyn. Yn yr haf mae Gwenoliaid a Gwenoliaid Duon i'w gweld yn gwibio'n gyflym dros y dyfroedd gan hela am wybed. Yn y gaeaf mae'n gynefin da i gael golwg ar hwyaid a rhydyddion megis Hwyaid Copog, Hwyaid Pengoch a Phibyddion y Dorlan sydd yn dod i fwrw'r gaeaf yn y cyffiniau.

### 3) GWAITH BRICS HOREB
Cais odyn "Hoffmann" ei defnyddio yn y gwaith brics, sef math o odyn a gyflwynwyd yn yr Almaen yn 1907; yn wahanol i fathau eraill o odynau, yr oedd y math hwn yn galluogi i frics gael eu crasu yn ddi-dor.

### 4) Y LLWYBR BEICIO
Mae'r llwybr beicio drwy Gwm Lliedi yn ymdroelli o Barc Arfordirol y Mileniwm yn Llanelli i Barc Coetir y Mynydd Mawr yn y Tymbl. Mae'n rhan o rwydwaith y Lôn Geltaidd o lwybrau beicio, sydd yn ymestyn am fwy na dau gant o filltiroedd gan roi cyfle i feicwyr grwydro ar hyd llwybrau oddi ar y ffordd a mwynhau gwychder cefn gwlad a'r arfordir.

### 5) Y GRONFA UCHAF
Mae Brithyllod a Brithyllod Seithliw yn cael eu gollwng yn rheolaidd i'r Gronfa Uchaf, ac mae'n fan poblogaidd gan bysgotwyr plu a chan Fulfrain, sydd a'u bryd ar yr un prae. Yn fynych mae'r Mulfrain i'w gweld yn lledu eu hesgyll er mwyn sychu eu plu cyn hedfan yn ôl i'r nyth. A fyddwch chi gystal a pheidio a sefyll yn rhy agos i'r pysgotwyr wrth iddynt chwipio'r dyfroedd.

### 6) Y COETIROEDD.
Mae'r dyffryn yn gwisgo mantell o goed, ac mae natur y dirwedd yn newid wrth i'r coed newid. Ar lan ddwyreiniol y gronfa isaf mae planhigfa o goed Pinwydd yr Alban sydd wedi cyrraedd eu llawn dwf, gan wneud i'r llyn ymddangos yn debycach i 'loch' yn yr Alban na llyn ynghanol Cymru. Mae'r coetir deri sydd i'r gogledd ac i'r dwyrain o'r gronfa uchaf, yn llawer mwy nodweddiadol o'r ardal. Mae'r coetir naturiol hwn ar ei orau yn gynnar yn y gwanwyn gan fod y ddaear bryd hynny yn gyforiog o Glychau'r Gog, Blodau'r Gwynt, Llygaid Ebrill, a Serenllys. Yn ddiweddarach yn y flwyddyn mae persawr Gwyddfid yn llenwi'r lle, ac efallai y gallwch gasglu ddigon o lus i weithio pastai.

### 7) Y GRONFA ISAF
Mae'r gronfa isaf yn cael ei defnyddio gan grwpiau gweithgareddau awyr agored ar gyfer canŵio, ac mae llawer o bobl wedi cael eu blas cyntaf ar ganŵio ar ddyfroedd y gronfa hon. DS. Ni chaniateir i bobl ganŵio yma os nad ydynt yn rhan o grŵp sydd wedi ei drefnu ac sydd ag arweinydd cymwys.

*I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch ag adran Hamdden Cyngor Sir Caerfyrddin, drwy ffonio 01554 747500.*




### 1) ST. ILLTUD'S WALK
St. Illtud's Walk is a long distance footpath, 64 miles long, stretching from Pembrey Country Park in the west to Margam Park, Port Talbot, in the east.

### 2) THE BIRD HIDE
The bird hide allows good views over the least disturbed areas of the reservoir. At any time of the year you may see Great Crested and Little Grebes, Coots, Moorhens and Herons. The arrival of summer is heralded by the Swallows and Swifts performing aeriel acrobatics over the open water while hunting for their insect prey. Winter sees the arrival of ducks and waders such as Tufted Duck, Pochard and Common Sandpiper.

### 3) HOREB BRICKWORKS
A "Hoffmann" kiln was used at the brickworks, a type patented in Germany in 1907 which, unlike other kilns of this period, ingeniously allowed continuous firing of bricks.

### 4) THE CYCLEWAY
The Swiss Valley cycleway runs from the Millennium Coastal Park at Llanelli to Mynydd Mawr Woodland Park at Tumble. It forms one arm of the Celtic Trail network of cycle paths which provide more than two hundred miles of enjoyable off-road coastal and countryside cycling.

### 5) THE UPPER RESERVOIR
The Upper Lliedi reservoir is stocked with Rainbow and Brown Trout, and proves a popular venue for both fly fishermen and Cormorants, who share the same interest. The Cormorants can often be seen "hanging their wings out to dry" before flying back to the nest. Please take care not to stand too close to the fishermen as they cast their flies.

### 6) THE WOODLAND AREAS.
The valley is cloaked by trees, and the character of the landscape changes as the tree cover changes. The eastern bank of the lower reservoir is covered by mature plantation forestry of Scots Pine and provides views more reminiscent of a Scottish loch than a Welsh valley. Much more typical of the area is the oak woodland to the north and east of the upper reservoir. This native woodland is at its best in early summer when the ground is carpeted with Bluebells, Wood Anemone, Lesser Celandine and Stitchwort. Later in the year fragrant Honeysuckle flowers perfume the air and Bilberries can be picked to put in a pie.

### 7) THE LOWER RESERVOIR
The lower Cwm Lliedi reservoir is used by outdoor pursuits groups for canoeing. Many budding enthusiasts have had their first taste of the sport on this reservoir. NB. Canoeists must be part of an organised group with qualified leaders. *For further details please contact Carmarthenshire County Councils' Recreation and Leisure Division, telephone 01554 747500.*

Hawlfraint y Goron © Crown Copyright LA09007L/97/01







